

2016 Rhif 1203 (Cy. 290)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A449 a'r A40 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Drosbont Chapel Lane, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016

Gwnaed 12 Rhagfyr 2016

Yn dod i rym 19 Rhagfyr 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40 a'r A449) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Rhagfyr 2016, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A449 a'r A40 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Drosbont Chapel Lane, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro

yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r luoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 19 Rhagfyr 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunkroad*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Cyfnewidfa Coldra yn Ninas Casnewydd a Throsbont Chapel Lane yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lloedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

Cymhwyso

8.—(1) Ni fydd y gwaharddiad a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

12 Rhagfyr 2016

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pŵerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r A449 sy'n ymestyn o'i gyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cyffordd 24 (Cyfnewidfa

Coldra), Casnewydd hyd at ganolbwynt cyfnewidfa yr A449 a'r A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).

Y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A449 (Cyfnewidfa Brynbuga).

Y darn o ffordd ymadael tua'r de yr A449 (Cyfnewidfa Brynbuga).

Y darn o ffordd ymadael tua'r gogledd yr A449 (Cyfnewidfa Brynbuga).

Y darn o ffordd ymuno tua'r de yr A449 (Cyfnewidfa Brynbuga).

Y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A449/A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).

Y darn o ffordd ymadael tua'r de yr A449/A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).

Y darn o ffordd ymadael tua'r gogledd yr A449/A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).

Y darn o ffordd ymuno tua'r de yr A449/A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).

ATODLEN 2

Terfyn cyflymder 40 mya, terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiwedd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan Coldra hyd at ganolbwynt Trosbont Chapel Lane yn Nhrefynwy.